



Teitl y Swydd:	Pennaeth Gwasanaethau Peirianeg a Chydymffurfiaeth
Uned/Ysgol:	Amgylcheddau Prifysgol (Ystadau)
Gradd:	8A/B
HERA:	UE14

### **Pwrpas craidd y rôl**

Mae'r rôl hon yn cefnogi Strategaeth 2030 Prifysgol Metropolitan Caerdydd a'i hymrwymiad i allyriadau carbon sero net, drwy sicrhau bod yr holl asedau peirianeg fecanyddol yn cyfrannu at amgylchedd diogel, hygyrch, cynaliadwy, ac sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr. Bydd deiliad y swydd yn gweithio ar y cyd ar draws tîm yr Ystadau a chyda rhanddeiliaid ehangach, Ysgolion ac Unedau, i sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi a chynnal a chadw yn cael eu hysbysu, eu blaenoriaethu, a'u cyflawni mewn ffordd sy'n gwella profiad y myfyriwr a'r staff ac yn cefnogi blaenoriaethau addysgu, dysgu, ymchwil, ac ymgysylltu â'r gymuned y Brifysgol.

Bydd deiliad y swydd yn arwain y tîm gwasanaethau peirianeg ac yn cynnal goruchwyliaeth dros yr holl swyddogaethau cydymffurfio statudol mecanyddol, trydanol, tân a'r ystâd ehangach. Ymgymryd â a dilysu arolygon cyflwr systemau mecanyddol, caffael gwasanaethau peirianeg, a datblygu rhaglenni gwaith blaenoriaethol i fynd i'r afael ag anghenion diogelwch, cydymffurfiaeth statudol, cyflwr, effeithlonrwydd ynni, cysur thermol mewnol, a phedagogaeth.

Bydd y rôl hon hefyd yn cefnogi Strategaeth 2030 a dyheadau carbon sero net y Brifysgol drwy gyflawni gwaith adferol a gwaith prosiectau bach, darparu gwasanaethau dylunio, a rhoi mewnbwn i benderfynu ar weithredoedd ac i arolygu'r gwaith adferol, boed yn waith wedi'i gynllunio neu'n waith adweithiol, a wneir i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r safonau gofynnol.

Bydd deiliad y swydd yn rhan o dîm bach, cydweithredol a disgwylir iddo weithio'n hyblyg i gefnogi swyddogaethau a blaenoriaethau cysylltiedig eraill yn ôl yr angen, i helpu i gyflawni'r canlyniadau dymunol i'r tîm a'r Brifysgol yn ei chyfanrwydd. Gall hyn gynnwys achlysuron anghyffredin o weithio y tu allan i oriau arferol i ymateb i ddigwyddiadau brys, neu lle bo angen i liniaru effaith gwaith ar swyddogaethau craidd ar sail gynlluniedig.

### **Prif gyfrifoldebau a chyfraniadau**

- Darparu mewnbwn technegol arbenigol i waith cynnal a chadw wedi'i gynllunio a gwaith adweithiol ar gyfer yr holl systemau mecanyddol, dehongli adroddiadau gwasanaeth i bennu camau unioni priodol, datblygu a blaenoriaethu cwmpas gwaith



clir, a goruchwyllo'r broses ddiogel, gydnaws a thechnegol gadarn o ddarparu a chwblhau gwaith unioni a gwaith gwella gan dimau mewnol a chontractwyr allanol.

- Darparu arweiniad ac arbenigedd ar gyfer pob agwedd ar gydymffurfiaeth ystad gwasanaethau peirianeg, gan oruchwyllo a rheoli'r tîm i sicrhau cydymffurfiaeth statudol gyffredinol.
- Gwerthuso perfformiad systemau mecanyddol, gan gynnig a gweithredu gwaith lle bo angen i sicrhau'r rheolaeth amgylcheddol orau ar gyfer defnydd bwriedig y cyfleusterau.
- Gweithredu fel Person Awdurdodedig y Brifysgol a'r prif arbenigwr technegol ar gyfer gwasanaethau mecanyddol, gan ddarparu dehongliad awdurdodol o ddeddfwriaeth a safonau (e.e. BS 5720 a chanllawiau CIBSE perthnasol).
- Fel prif arbenigwr technegol y Brifysgol ar gyfer gwasanaethau mecanyddol, bydd deiliad y swydd yn darparu cyngor awdurdodol ar gydymffurfiaeth statudol fecanyddol, gan sicrhau bod gweithgareddau arolygu, profi, cynnal a chadw ac adfer ar gyfer systemau mecanyddol yn gadarn, yn ddiogel ac yn cydymffurfio'n llawn â'r ddeddfwriaeth a'r safonau perthnasol.
- Y sawl sy'n dal y swydd yw prif Person Awdurdodedig a Pherson Cymwys y Brifysgol ar gyfer Systemau Pwysau, Loler, Systemau Nwy a Fentileiddio, gan weithredu fel yr arbenigwr mewnol ar gyfer gwasanaethau mecanyddol, gan ddarparu dehongliad awdurdodol o ddeddfwriaeth a safonau.
- Bydd yn goruchwyllo rhaglen o fesur cyn ac ar ôl pob gwaith peirianeg i sicrhau gwerth am arian ac effeithlonrwydd i'r Brifysgol drwy ei gwasanaethau dan contract.
- Bydd yn goruchwyllo, datblygu a chynnal systemau gwaith diogel drwy weithredu gweithdrefnau Trwydded i Weithio a Chaniatâd i Weithio, a datblygu SOPau ac EOPau ar gyfer yr holl ddisgyblaethau sy'n ymwneud â pheirianeg.

### **Manyleb person**

#### **Cymwysterau hanfodol / Aelodaeth broffesiynol**

- O leiaf 5 TGAU (A\* - C), gan gynnwys Mathemateg a Saesneg, neu gyfatebol.
- Aelodaeth Siartredig (CEng, IMechE, neu gyfwerth) neu fod yn gweithio'n weithredol tuag at ei chyflawni.



## Profiad, gwybodaeth a sgiliau hanfodol

1. Profiad y gellir ei ddangos o weithredu fel arweinydd technegol ar gyfer cydymffurfiaeth fecanyddol statudol (er enghraifft diogelwch nwy, systemau gwasgedd a pheiriannau mecanyddol critigol eraill o ran diogelwch), gan gynnwys adolygu adroddiadau arolygu a gwasanaethu, nodi anghydfurfiadau, a datblygu gwaith unioni â chwmpas a blaenoriaeth.
2. Profiad o ddatblygu a blaenoriaethu rhaglenni cynnal a chadw wedi'u cynllunio ar gyfer systemau mecanyddol.
3. Y gallu i ddylunio, nodi a rheoli gwaith adfer a gwaith adnewyddu mecanyddol bach.
4. Dealltwriaeth gadarn o gydymffurfiaeth statudol, safonau peirianeg fecanyddol, a rheoliadau adeiladu fel y maent yn berthnasol i wasanaethau mecanyddol.
5. Profiad helaeth o gylchu gwaith, manylebu, caffael ac arwain rhaglenni a phrosiectau sy'n cael eu cynnal gan gontractwyr ac ymgynghorwyr i gyflawni gwaith.
6. Sgiliau trefniadol a rheoli prosiectau cryf.
7. Sgiliau cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid rhagorol.
8. Gallu profedig i ddadansoddi data i lywio penderfyniadau a blaenoriaethu adnoddau.
9. Ymrwymiad cryf i wasanaeth cwsmeriaid a darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr.
10. Ymrwymiad y gellir ei ddangos i leihau effeithiau amgylcheddol systemau mecanyddol, gyda dealltwriaeth gadarn o effeithlonrwydd ynni, yr economi gylchol ac arferion peirianeg gynaliadwy.
11. Ymrwymiad y gellir ei ddangos i ddatblygiad proffesiynol parhaus.

## Dymunol

1. Profiad o weithio mewn amgylchedd addysg uwch neu ystadau mawr aml-safle.
2. Cymhwyster lechyd a Diogelwch NEBOSH neu IOSH (neu ymrwymiad i ymgymryd â'r hyfforddiant a'r asesiad gofynnol).
3. Profiad o sefydlu'r defnydd o systemau CAFM, a datblygu a mireinio prosesau a gweithdrefnau ar gyfer rheoli asedau'r ystâd a rhaglenni gwaith.
4. Gradd mewn Peirianeg Fecanyddol neu ddisgyblaeth gysylltiedig neu gyfatebol.



### Gofynion sgiliau Cymreig

Mae'r Gymraeg yn hanfodol i'n myfyrwyr a'n staff ac yn rhan allweddol o'n darpariaeth a'n gwasanaethau. Ar gyfer pob swydd ym Mhrifysgol Met Caerdydd, mae hyfedredd yn y Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y lefelau drwy edrych ar ein llyfryn: [Lefelau sgiliau iaith Gymraeg](#). Os yw sgil wedi'i rhestru fel un hanfodol yn y tabl isod, sicrhewch eich bod yn ei dangos yn eich ffurflen gais ar-lein.

Lefel iaith a disgrifydd cyffredinol	Gwrando	Darllen	Siarad	Ysgrifennu
<b>A1 – Dechreuwr</b> Gall ddeall a defnyddio mynegiadau bob dydd cyfarwydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn Gymraeg.	Dymunol	Dymunol	Dymunol	Dymunol
<b>A2 - Defnyddiwr sylfaenol</b> Gall ymdrin â gwybodaeth syml, uniongyrchol a chyfathrebu mewn Gymraeg sylfaenol.				
<b>B1 - Defnyddiwr canolradd</b> Gall gyfathrebu, i raddau cyfyngedig, yn Gymraeg am bethau sy'n gyfarwydd a/neu'n gysylltiedig â'r gwaith.				
<b>B2 - Defnyddiwr canolradd uwch</b> Gall fynegi yn Gymraeg ar amrywiaeth o bynciau a deall y rhan fwyaf o sgwrs gyda siaradwr brodorol.				
<b>C1 - Defnyddiwr rhugl</b> Gall siarad Gymraeg yn rhugl.				
<b>C2 - Defnyddiwr meistr</b> Gall gyfathrebu'n rhugl ar faterion cymhleth ac arbenigol yn Gymraeg.				

### Gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Mae'r swydd hon yn gofyn am wiriad DBS sylfaenol.

### Gwybodaeth gefnogol

Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig a gallai fod angen gwneud newidiadau o dro i dro. Nid yw'r disgrifiad swydd a'r manyleb person hon yn bwriadu bod yn gynhwysfawr.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau moesegol a phroffesiynol uchaf o ran ymddygiad. Felly, disgwylir i bob aelod o staff ystyried yn briodol effaith eu hymddygiad personol ar y



Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob gweithiwr ddangos eu bod yn cadw at ein Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob gweithiwr ystyried yn arbennig eu cyfrifoldebau o dan bolisiâu a gweithdrefnau Prifysgol Metropolitan Caerdydd.